

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 4 HYDREF 2016

Presennol

Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng B Owen

Cynghorwyr

I C Thomas, W L Davies, W T Owen, H W Roberts, A W Bohana,
M W Thomas, G Thomas (c), A Hopcyn, E Lovgreen, T Thomas,
C Williams, G Thomas (p), M Sarnacki

1. Ymddiheuriadau

Cyng W R Owen, Cyng K Williams, Cyng E Hughes

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Cystadleuaeth Bowlio Trefi Caerog – diolch i Cyng I C Thomas am
fynychu

Mcmillan bake off yn Feed my Lambs – diolch i Cyng I C Thomas am
fynychu

Rali Ceir Trefi Caerog – diwrnod llwyddianus efo 109 o geir yn cyrraedd
Caernarfon , diolch i'r sawl oedd yn gwirfoddoli

3. Datgan Buddiant Personol

Cyng W T Owen – cynllunio

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ebost parthed ymgynghoriad Wylfa

Audit

Cais ariannol yr Heddlu

Cyhoeddiad parthed y poppies yn Castell

Nododd y clerch fyddai angen dileu y rheolau sefydlog er mwyn
trafod 2 ohonynt gan bod angen gweithred arnynt a dim ond
oherwydd amseriad bod angen ystyried eu trafod fel eitemau brys

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor, 20 Medi 2016
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio
Penderfynwyd

1.C16/1139/14/LL
Estyniad a newidiadau
13 Llys Y Garn, Caernarfon

Cytuno

2. C16/1142/14/LL
Estyniad yn nhu blaen ac ochr yr eiddo
41 Cae Gwyn, Caernarfon

Cytuno

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn au talu (unfrydol)

8.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. E-bost Sian Ellis Williams

Ymateb parthed Cerflun Draig
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ac yn diolchgar ei fod yn aros yn y dref
(unfrydol)

10. Adroddiad Cyng. A. Hopcyn o'r ymweliad gefeillio

Nodwyd bod ymweliad llwyddianus iawn wedi bod a gan bod dathlu 25 mlynedd o gefeillio mi fydda ni yn mynd draw ymhen 2 flynedd i ddathlu hun

Penderfynwyd

Derbyn a diolch am yr adroddiad (unfrydol)

11. Cyngor Gwynedd

Rhybudd am gau Pont yr Aber dros dro

Penderfynwyd

Gan bod y dyddiad wedi pasio dim angen trafodaeth

12. Cyngor Gwynedd

Ymateb parthed cyfyngiadau parcio ar Y Maes

Cafwyd sgwrs am y Clirffordd a bod y Cynghorwyr yn falch bod hwn yn mynd

Penderfynwyd

Gan ystyried bod y busnesau yn hapus ar awgrymiadau newydd derbyn yr argymhellion a tynnu'r gwrthwynebiad yn nol (unfrydol)

13. Cyngor Gwynedd Her Gwynedd

Ymateb Anwen Davies + ymateb cynt

Cafwyd trafodaeth ystyrion arall ar y pwnc a codwyd nifer o bwyntiau iw ystyried i'r dyfodol .

Penderfynwyd

Toiledau cyhoeddus -Er mwyn sicrhau bod y toiledau yn aros yn agored cynnig y £12,000 mil am y flwyddyn nesaf ac yna sicrhau trafodaethau ar y canlynol

Ffyrdd eraill o godi arian, cydweithio a busnesau'r dref, ystyried social enterprise, TUPE (unfrydol)

Biniau Halen – gofyn am restr llawn o rhai sydd yn Caernarfon a nodi pa rhai sydd o dan orfodaeth Cyngor Sir a pha rhai trunk agency ag ati. Cyn parhau unrhyw drafodaeth (unfrydol)

14. Costau trydan

Cafwyd taflen cymhariaeth gan y clerch i hwyluso'r drafodaeth

Penderfynwyd

Mynd am gytundeb 3 mlynedd efo British Gas trwy "direct debit" (13 o blaid , 1 ymatal)

15. E-bost parthed carchar Berwyn

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ac argymell unrhyw un sydd yn rhydd i fynychu (unfrydol)

16. Adroddiad ar lafar o gyfarfod parthed TCC

Nodwyd bod cyfarfod positif iawn wedi bod ac awyrgylch llawer iawn braifach ers bod pawb yn cyfrannu. Cafwyd diweddariad o effaith ymgynghoriad ar y lefelau staffio – dau aelod yn llai rŵan ac felly lefelau yn is 2 ar gyfnodau prysur ond weithiau unigol fel arall Edrych i sicrhau prisiau llai gan BT am offer gan fydd angen mwy o arbedion flwyddyn nesaf. Camerâu wedi helpu mewn 967 o achosion llynedd

Penderfynwyd

Derbyn a diolch am yr adroddiad (unfrydol)

17. Adroddiad o gyfarfod Cylch Trefi Caerog

Nodwyd llwyddiant tim caernarfon yn y cystadleuaeth bowls

Penderfynwyd

Derbyn a diolch am yr adroddiad (unfrydol)

18. Cwestiynau

Dim

(Eitemau Brys)

19. E-bost parthed ymgynghoriad Wylfa

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

Cafodd y rheolau sefydlog eu rhoi i un ochr ar gyfer yr eitemau nesaf gan bod angen gweithredu (unfrydol)

20. Audit

Eglurodd y clerc bod y trefniadau o dan y cwmni newydd wedi bod yn broblemus iawn eleni yn enwedig o safbwynt amseru gwaith papur ganddynt. Nifer fawr yn cwyno a rhai clercod yn ymddiswyddo o herwydd y mater. Cyngor wedi cael “Qualified Audit “ ar sail bod y ddogfen Asesiad risg ddim wedi cael ei adnewyddu yn flynyddol . awgrymiadau eraill yn cynnwys bod angen prisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau ar y rhestr asedau a bod un dyddiad ar goll ar y ffurflen. Nododd y clerc bod yr awgrymiadau i gyd yn hawdd iawn i ddatrys heblaw am y prisiau gwreiddiol gan bod eitemau yn mynd yn nol yn bell iawn cyn amser y clerc a’r Cynghorwyr.

Penderfynwyd

Anfon llythyr o anfonlonwrydd i’r cwmni newydd BDO ac hefyd i Swyddfa Archwilio Cymru (sydd yn ei penodi) i nodi ein anfonlonwrydd am sut mae pethau wedi cael ei delio a hwy eleni , gan nodi bod y clerc wedi cynnig cydweithio a’r ddau gorff er mwyn hwyluso’r sefyllfa i’r dyfodol er lles pawb gan bod y sector ddim yn medru mynd trwy hun eto (unfrydol – gan hefyd diolch i’r clerc am ei holl gwaith ar yr audit ac i geisio datrys y sefyllfa)

21. Cais ariannol Heddlu

Derbyniwyd ymateb gan yr heddlu oedd yn nodi eu bod hwy yn ddiolchgar am y syniad i gysylltu a chynghorau eraill ond bod amserlen y cynghorau hynny dim yn caniatáu yn amserol ar gyfer eleni ac yn gofyn inni ail ystyried y cais gan bod yr amserlen rhy dynn yn ein cyfarfod nesaf

Penderfynwyd

Siomedig yn yr ymateb ond yn falch bod nhw yn derbyn ein argymhelliad i’r dyfodol - Cyfrannu £100 (unfrydol)

22. Cyhoeddiad parthed y poppies

Nododd y clerc bod gwahoddiad wedi dod i law i’r cynghorwyr fynychu i weld yr arddangosfa ar y Dydd Mawrth 11fed Hydref (sef y diwrnod cyn agor i’r cyhoedd)

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a pawb fynychu sydd yn dymuno – Mae’r Castell wedi derbyn rhestr o’ch enwau i’r pwrpas yma

Cafodd y rheolau sefydlog ei roi yn nol yn weithredol cyn cau’r cyfarfod (unfrydol)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.08

Arwyddwyd Dyddiad

